**Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth SCHTh: 12-2018**

**Cais:**

Pa gyllideb sydd gan eich Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'i phennu ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched? Gallai hyn gynnwys costau staff, costau cyfreithiol, cost digwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad ac ati. Rhowch yr ateb fel cyfanswm cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 os gwelwch chi'n dda.

**Ateb:**

Mae Adran 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus. Oni bai bod eithriadau'n gymwys, y ddyletswydd gyntaf dan Adran 1(1)(a) yw cadarnhau neu wadu a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei chadw. Yr ail ddyletswydd dan Adran 1(1)(b) yw datgelu'r wybodaeth y cadarnhawyd ei bod yn cael ei dal.

Medraf gadarnhau bod y wybodaeth yn cael ei dal gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

- Mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019 ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu sy'n ymwneud â gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched fel a ganlyn:

    Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol: £200,000
    Gwasanaethau Cam-drin Rhywiol (Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol): £73,570

    Cyfanswm cyllideb: £273,570

---

(Ymateb yw hwn o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 18/07/18)